Chwarae Cymru
Play Wales

# Dan y chwyddwydr ... Gwarchodwr plant cofrestredig a pherchennog gofal dydd

**Sarah Sharpe, gwarchodwr plant cofrestredig a pherchennog Poppins Day Care ym Mro Morgannwg.**

## Beth yw teitl dy swydd a beth mae dy rôl yn ei olygu?

Rwy'n warchodwr plant cofrestredig sy'n gofalu am blant rhwng 0 a 12 oed. Rwy'n darparu amgylchedd cartrefol ble mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu ffurfio perthnasoedd cadarnhaol a diogel.

## Beth yw'r agwedd bwysicaf neu fwyaf pleserus ar dy waith?

Rwy'n mwynhau bod yn y foment, archwilio'r byd o'n cwmpas ni a mwynhau gweld y tymhorau'n newid. Mae'n fraint cael treulio fy niwrnod gyda phlant o wahanol oedrannau ac rwy'n mwynhau cael cyfle i arafu a mwynhau'r pethau bychain fel gwylio aderyn yn casglu pethau ar gyfer ei nyth, malwoden yn symud yn araf gyda'i chartref ar ei chefn a'r llu o gwestiynau, chwilfrydedd a'r rhyfeddod y mae hyn yn ei ysgogi.

## Alli di ddweud ychydig wrthym am dy hunan a sut ddechreuaist ti weithio ym maes chwarae / gwaith chwarae?

Rwy'n warchodwr plant ers 12 mlynedd a phenderfynais gofrestru ar gyfer Lefel 3 Pontio i Waith Chwarae heb wybod yn iawn beth i'w ddisgwyl. Cefais fy synnu ar yr ochr orau a chafodd y cwrs effaith gadarnhaol iawn ar fy ffordd o feddwl.

## Sut mae ennill cymwysterau mewn gwaith chwarae wedi dy helpu yn dy rôl bresennol?

Rwy'n eiriolwr chwarae plant ac yn teimlo'n gryf iawn am roi'r rhyddid i blant archwilio'n annibynnol er mwyn magu eu hyder, eu gwytnwch a'u hunan-barch. Nid yw chwarae mentrus yn codi ofn arnaf mwyach, ac rwy'n gallu gweld bod y manteision yn llawer mwy na'r peryglon. Mae chwarae mewn ffordd sy'n naturiol gynhenid yn golygu na fydd dau ddiwrnod byth yr un fath a'r plant sy'n rheoli. Mae gwybod beth yw diddordebau'r plant yn fy ngalluogi i gynllunio amgylchedd fy nghartref i wella eu gwybodaeth ac i gyflawni eu dyheadau.

## A oes unrhyw beth heriol am dy swydd?

Gall bod yn warchodwr plant fod yn unig ac yn ynysig ond rwy'n ffodus iawn o allu cydweithio â llawer o warchodwyr plant a gweithwyr gofal plant proffesiynol hyfryd. Roeddwn mor falch o ennill gwobr Gweithiwr Chwarae y Flwyddyn 2024 Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Rwy'n falch o fod wedi ysbrydoli eraill ac fy mod yn eiriolwr dros hawl plant i chwarae.

www.chwarae.cymru
Elusen cofrestredig, rhif 1068926
© Chwarae Cymru

# Dan y chwyddwydr ... PSG elusen ganser The Joshua Tree

**Rich Driffield, cyn-weithiwr chwarae sydd bellach yn Brif Swyddog Gweithredol, The Joshua Tree**

## Alli di ddweud ychydig wrthym am dy hun a sut gychwynnaist ti ym maes gwaith chwarae / chwarae?

Fe gychwynnais fy ngyrfa fel gweithiwr chwarae gyda Chyngor Sir y Fflint, ac yna symud i rôl llawn amser yn Nhîm Datblygu Chwarae Cyngor Wrecsam. Ers hynny, rwyf wedi rheoli maes chwarae antur yn White City, Gorllewin Llundain a gweithio gyda chwpwl o elusennau ieuenctid ym Manceinion, gan arwain ar ddatblygu busnes a chynhyrchu incwm. Dechreuais weithio gyda The Joshua Tree ym mis Tachwedd 2021.

## Beth yw teitl dy swydd a beth mae dy rôl yn ei olygu?

Fi yw PSG The Joshua Tree. Fel elusen rydym yn cefnogi teuluoedd gaiff eu heffeithio gan ganser yn ystod plentyndod ar draws gogledd Cymru, Swydd Gaer, a gogledd orllewin Lloegr. Mae fy rôl yn cynnwys darparu arweinyddiaeth a chyfrifoldeb cyffredinol am yr elusen a gweithio'n agos gyda'n bwrdd ymddiriedolwyr gwych i ddatblygu ein strategaeth tymor hir, cyllidebau a chynlluniau busnes.

## Beth yw agwedd bwysicaf neu fwyaf pleserus dy waith?

Elfen bwysicaf fy ngwaith yw'r teuluoedd yr ydym yn eu cefnogi. Rwy'n falch iawn o'r hyn yr ydym yn ei wneud fel elusen wrth drosglwyddo cefnogaeth emosiynol, iechyd a lles i deuluoedd ar adeg allweddol. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ddatblygu ein gwasanaethau er mwyn ateb anghenion y bobl yr ydym yn eu cefnogi. Rwy'n falch dros ben wrth weld yr effaith cadarnhaol yr ydym yn ei gael ar deuluoedd, ac mae hyn yn fy ysgogi ym mhob maes arall o fy ngwaith.

## Sut mae dy gefndir mewn gwaith chwarae wedi dy helpu yn dy rôl bresennol?

Yn y bôn, rwy'n weithiwr chwarae, ac mae fy nghefndir mewn gwaith chwarae wedi fy helpu yn fawr iawn yn fy rôl bresennol. Un elfen allweddol o hyn yw'r angen i fod yn greadigol ac yn barod i addasu i ystod eang o sefyllfaoedd. Y dysg mwyaf a gymerais o fy ngyrfa gynnar mewn gwaith chwarae oedd arfer myfyriol. Rwyf wedi datblygu sgiliau allweddol sy'n ymwneud â hunanymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar sut i wella fy ngwaith yn barhaus. Rydym hefyd yn darparu nifer o sesiynau chwarae yn yr elusen, felly mae'r profiad ymarferol hwnnw wedi helpu'r tîm i roi syniadau ar waith.

## Beth wyt ti'n ei feddwl sy'n heriol am dy swydd?

Mae yna wastad nifer o heriau wrth arwain elusen fechan, yn enwedig nawr wrth i ni ehangu ein gwaith. Ond rwy'n hoffi cael fy ngwthio o fy sefyllfa gyfforddus ac rwyf wir yn mwynhau ceisio datblygu'r elusen bob dydd.



Elusen cofrestredig, rhif 1068926
© Chwarae Cymru

Chwarae Cymru Play Wales

# Dan y chwyddwydr ... Darlithydd Datblygiad Plentyndod a Gwaith Chwarae

**Emma Booth, Darlithydd Datblygiad Plentyndod a Gwaith Chwarae ym Mhrifysgol Leeds Beckett.**

## Alli di ddweud ychydig wrthym am dy hunan a sut gychwynnaist ti ym maes gwaith chwarae / chwarae?

Pan glywais i gyntaf am waith chwarae, roeddwn i'n benderfynol fy mod am astudio seicoleg er mwyn mynd ymlaen i faes seicoleg fforensig. Ond, fe sylwais nad oedd y ffaith y byddai'r ymyriadau'n dod ar ôl i'r 'broblem' godi yn teimlo'n iawn i mi. Wrth imi ddarllen mwy am waith chwarae a sut y mae'n gweithio gyda phlant, cefais fy nennu gan yr arddull anfeirniadol unigryw o weithio gyda phlant yn y fan a'r lle. Y ffordd unigryw yma o gefnogi plant sy'n nodwedd sylfaenol o waith chwarae mewn carchardai.

## Beth yw teitl dy swydd a beth mae dy rôl yn ei olygu?

Rwyf bellach yn ddarlithydd ar y cwrs gradd Datblygiad Plentyndod a Gwaith Chwarae. Cyn hynny fe weithiais i yn y gwasanaeth carchardai a phrawf mewn gwasanaethau i deuluoedd. Un agwedd o fy rôl gyda'r carchardai oedd darparu chwarae ar gyfer plant fyddai'n ymweld â rhiant oedd wedi'u carcharu.

## Beth yw agwedd bwysicaf neu fwyaf pleserus dy waith?

Un rhan bwysig o'r rôl yw cefnogi hawl plentyn i chwarae mewn amgylchedd sydd, o bosibl, yr amgylchedd gwaith chwarae mwyaf cyfyngol. Gall chwarae mewn lleoliad fel carchar gael nifer o fuddiannau therapiwtig, fel lleihau straen a phryder, a chynorthwyo plant i ail-gysylltu gyda'u rhiant. Rhywbeth sy'n wirioneddol arbennig i mi am waith chwarae mewn carchardai yw'r cyfeillgarwch y bydd plant yn ei ddatblygu trwy ganfod ei gilydd mewn sefyllfaoedd tebyg. Mae llawer o stigma ynghylch bod â rhiant yn y carchar, ac i blant sy'n gwybod y gwir maent yn aml yn teimlo gwarth a chywilydd, neu gall y gymuned ehangach drin y plant fel eu bod yn euog trwy gysylltiad. Gall hyn i gyd olygu bod plant yn ei chael yn anodd cynnal cyfeillgarwch. Ond, wrth chwarae mewn lleoliad carchar mae'r pryderon hyn yn llai ac, o ganlyniad, bydd cyfeillgarwch yn datblygu ymysg y plant a'u teuluoedd sy'n mynd y tu hwnt i gyd-destun y neuadd ymweld.

## Sut mae cefndir mewn gwaith chwarae yn helpu wrth weithio gyda phlant yng nghyd-destun carchar?

Fel gweithwyr chwarae rydym yn sylweddoli pwysigrwydd chwalu rhwystrau i chwarae ac, fel y soniais eisoes, mae lleoliad carchar yn arbennig o gyfyngol. Gall y cyfyngiadau hyn wneud yr amgylchedd yn anhyblyg ac anghyfeillgar – a dyma ble mae rôl y gweithiwr chwarae'n camu i'r adwy. Yn hytrach na chynyddu hyblygrwydd yr amgylchedd, y gweithiwr chwarae fydd angen bod yn hyblyg er mwyn chwalu'r rhwystrau i chwarae.

## Beth wyt ti'n ei feddwl sy'n heriol am dy swydd?

Agwedd fwyaf heriol y swydd yw'r cyfyngiadau. Mae llawer o adnoddau na allwn eu darparu, fel toes chwarae, sisyrnau a chreonau cwyr, fyddai'n cael eu cymryd yn ganiataol mewn lleoliadau chwarae eraill. Her arall yw'r diffyg dealltwriaeth ynghylch pwysigrwydd chwarae mewn carchar. Yn aml, caiff ei ystyried fel elfen foethus ar gyfer y plant yn hytrach na chael ei werthfawrogi am fod yn ymyriad.


Elusen cofrestredig, rhif 1068926
© Chwarae Cymru

Chwarae Cymru
Play Wales

# Dan y chwyddwydr ... swyddog prosiect sy'n gweithio gyda rhieni

**Kerstin Nott, swyddog prosiect sy'n gweithio gydag Achub y Plant yng Nghymuned Addysg Gynnar Betws yng Nghasnewydd.**

## Alli di ddweud ychydig wrthym am dy hun a sut gychwynnaist ti ym maes chwarae / gwaith chwarae?

Fe ddechreuais i weithio gyda phlant dan oed ysgol pan oedd fy mhlant fy hun yn ifanc iawn. Fe es i a fy merch i ganolfan aros a chwarae ac fe benderfynais roi help llaw. Awgrymodd y prif weithiwr chwarae y dylwn i gymhwyso fel ymarferydd gofal plant gan fy mod i'n dod ymlaen yn dda gyda'r plant. Fe wnes i hynny yn 2002. Roedd y gwaith yn ffitio'n dda o gwmpas oriau a gwyliau'r ysgol felly roeddwn i wastad yno i fy mhlant, ac rwyf wedi bod yn gweithio mewn amrywiol rolau gofal plant fyth ers hynny.

## Beth ydi teitl dy swydd a beth mae dy rôl yn ei olygu?

Fy rôl ydi i ymgysylltu gyda theuluoedd sy'n profi tlodi. Ry'n ni'n gweithio gyda rhieni ac athrawon i gynyddu hyder a sgiliau sy'n ymwneud ag addysg plant, gan chwilio am gyfleoedd ar gyfer gwelliant y tu mewn ac y tu allan i'r ysgol. Rydym yn darparu offer dysgu a nwyddau angenrheidiol sylfaenol i'r cartref – fel llyfrau, teganau, gwelyau, a pheiriannau mawr – sy'n gwneud cartrefi'n iachach, yn hapusach, ac yn fannau gwell i ddysgu a chwarae. Rwy'n cefnogi Chwarae Cymru gyda phrosiectau newydd fel sesiwn chwarae ar ôl ysgol yn yr ysgol gynradd leol. Mae hyn wedi darparu mynediad i'r gofod y tu allan ar gyfer chwarae pan ddaw'r diwrnod ysgol i ben. Mae'n rhoi lle i'r plant chwarae ac archwilio ac mae'n rhoi cyfle i mi gael sgwrs gyda'r rhieni mewn lleoliad ble maen nhw'n teimlo'n ddiogel.

## Beth ydi'r materion allanol presennol sy'n effeithio ar dy waith?

Gan fod costau byw'n codi, mae'r effaith y mae'n ei gael ar deuluoedd yn aruthrol. Mae iechyd meddwl a gwytnwch teuluoedd yn cael eu gwthio i'r eithaf ac mae'r plant yn teimlo'r straen a'r pryderon y mae eu rheini'n ymdopi gyda nhw. 'Does gan lawer o deuluoedd mo'r capasiti i ymgysylltu a chwarae gyda'u plant oherwydd eu hiechyd meddwl.

## Beth wyt ti'n ei feddwl sy'n heriol am dy swydd?

Oherwydd yr anawsterau y mae teuluoedd yn eu hwynebu, mae'n cymryd amser i annog rhai rhieni i chwarae gyda'u plant neu i adael i'w plant i fynd allan i chwarae. Mae llawer o rieni'n ei chael yn anodd gadael i'w plant fynd allan i chwarae yn y gymdogaeth oherwydd pryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol neu draffig cyflym ar yr heolydd. Mae ceisio newid y cylch hwn yn her barhaus y bydda' i'n dal i'w chefnogi.


Elusen cofrestredig, rhif 1068926
© Chwarae Cymru

# Dan y chwyddwydr … Swyddog Arweiniol Digonolrwydd Chwarae awdurdod lleol

**Gareth Stacey, Arweinydd Tîm Cynorthwyol – Chwarae ac Ieuenctid – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.**

## Alli di ddweud ychydig wrthym am dy hun a sut gychwynnaist ti ym maes gwaith chwarae?

Fel gyda llawer o weithwyr chwarae yn y maes, fe syrthiais i mewn i waith chwarae tra'n astudio yn y brifysgol trwy gymryd swydd gwaith chwarae dymhorol, dros wyliau'r haf. Fe wnaeth yr hyfforddiant a dderbyniais, yn ogystal â'r profiadau a gefais yn ystod yr haf cyntaf hwnnw, argraff fawr arna' i. Rydw i wedi bod yn ffodus dros ben i weithio'n gyson yn y sector chwarae ers 20 mlynedd mewn amrywiol rolau ar draws nifer o ardaloedd awdurdodau lleol.

## Beth mae dy rôl yn ei olygu?

Yn gryno, rwy'n gyfrifol am y tîm gwaith ieuenctid cymunedol a hefyd y tîm datblygu chwarae y ng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae swyddogaeth fy rôl yn strategol yn ogystal â gweithredol. Fel tîm, rydym yn trosglwyddo darpariaeth chwarae ac ieuenctid blwyddyn gron a dros y gwyliau, yn ogystal â darparu cefnogaeth datblygu i gymunedau, ysgolion a sefydliadau i wella amodau ar gyfer chwarae plant. Fi ydi'r arweinydd enwebedig ar gyfer digonolrwydd chwarae ar ran yr awdurdod.

## Sut mae dy rôl wedi newid o ganlyniad i COVID-19?

Tra roeddem dan gyfyngiadau Covid bu rhaid i'n tîm addasu er mwyn ymateb i anghenion bythol newidiol plant, teuluoedd a chymunedau. Fe wnaeth ffocws ein gwasanaeth newid rhywfaint a'n gorfodi i newid ein harfer gwaith chwarae. Fe weithiom gyda'r teuluoedd mwyaf bregus yn ystod y cyfnod hwnnw gan ddarparu cefnogaeth a chyngor, ond fe wnaethom hefyd ymdrechu i sicrhau nad oeddem yn anwybyddu'r effaith yr oedd y pandemig yn ei gael ar bob plentyn yn Wrecsam.

## Beth ydi agwedd bwysicaf dy waith fel Swyddog Arweiniol Digonolrwydd Chwarae?

Mae'n hanfodol sicrhau eich bod yn ymgysylltu gyda'r swyddogion perthnasol a'r oedolion sy'n gallu dylanwadu ar fywydau plant i fod yn fwy chwareus. Felly, rwy'n teimlo mai agwedd bwysicaf fy rôl ydi gallu dynodi, datblygu a chynnal perthnasau gyda swyddogion, gwasanaethau a sefydliadau ledled Wrecsam.

## Beth wyt ti'n ei feddwl sy'n heriol am dy swydd?

Diolch byth mae gan Wrecsam hanes maith a diwylliant o gefnogi chwarae plant. Mae'r rhwydwaith chwarae hirsefydlog yn grŵp o weithwyr proffesiynol hynod brofiadol a hollol gymwys sy'n frwd ynghylch gwella bywydau plant. Fodd bynnag, agwedd fwyaf heriol fy rôl ydi gallu rhannu fy sylw a chefnogaeth yn y modd mwyaf effeithlon i'r llu o brosiectau prysur sy'n cael eu cynnal. Weithiau, fel sy'n wir gyda'r mwyafrif o bobl rwy'n siwr, mae'n fater o droelli cymaint o blatiau â phosibl a gobeithio y byddan nhw'n aros i fyny!



Elusen cofrestredig, rhif 1068926
© Chwarae Cymru

Chwarae Cymru Play Wales

# Dan y chwyddwydr ... Cydlynydd Prosiect Cynllun Chwarae a Chynhwysiant

**Karianne (Kez) Harston, Cydlynydd Prosiect Cynllun Chwarae a Chynhwysiant gyda Thîm Datblygu Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW).**

## Alli di ddweud ychydig wrthym am dy hun a sut gychwynnaist ti ym maes gwaith chwarae?

Pan oeddwn i'n arddegwr, fe wnes i wirfoddoli fel gweithiwr ieuenctid iau gyda fy nghlwb ieuenctid lleol. Fe wnaeth hyn ddylanwadu ar fy mhenderfyniad i astudio ar gyfer gradd Gwaith Ieuenctid a Chymuned ym Mhrifysgol Glyndŵr pan oeddwn i'n 18 oed. Fues i'n ddigon ffodus i sicrhau swydd fel gweithiwr chwarae yn Nyffryn Gwenfro a chefais gynnig lle ar y cwrs $P^3$ yn 2012, wnaeth wir fy helpu i ennill dealltwriaeth o waith chwarae a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Fe wnes i ddal i weithio fel gweithiwr chwarae am wyth mlynedd, gan fy mod wedi syrthio mewn cariad gyda'r proffesiwn.

## Beth yw teitl dy swydd a beth mae dy rôl yn ei olygu?

Ers 2019, rydw i wedi gweithio i CBSW fel Cydlynydd Prosiect Cynllun Chwarae a Chynhwysiant. Fi sy'n gyfrifol am drefnu staffio ac adnoddau ar gyfer ein sesiynau chwarae yn ystod y tymor a dros y gwyliau. Ynghyd â hyn, rwy'n gweithio gyda theuluoedd i ddarparu cymorth 1-1 mewn sesiynau chwarae ar gyfer plant sydd ei angen.

## Beth wyt ti'n ei feddwl sy'n heriol am dy swydd?

Ar hyn o bryd, mae staffio'n broblem. Yn ddelfrydol, rydym angen mwy o staff er mwyn mwyafu potensial ein sesiynau. Mae'n gallu bod yn anodd cael hyd i staff oherwydd ein horiau gweithio anghymdeithasol, gyda sesiynau'n cael eu rhedeg ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau, felly mae'n anodd i bobl sicrhau gofal plant.

## Beth yw'r peth gorau am dy swydd?

Mae'n anodd dewis dim ond un! Rwy'n cael gweithio gyda grŵp gwych o bobl o'r un meddylfryd. Mae digonedd o gyfleoedd i dderbyn hyfforddiant. Mae'n wych gallu darparu gwasanaeth i blant sy'n rhad ac am ddim ac sy'n cefnogi eu twf a'u lles trwy roi cyfleoedd iddyn nhw wneud yr hyn y maent am ei wneud yn eu cymuned eu hunain. Mae chwarae'n sbarduno llawenydd mewn pobl, sy'n debyg iawn i hudoliaeth, ac mae gallu bod yn rhan o hynny'n teimlo'n arbennig iawn i mi.

## Sut mae dy rôl wedi newid o ganlyniad i COVID-19?

Roeddwn i ond wedi bod yn fy rôl ers chwe mis pan ddaeth y cyfnod clo cyntaf. Roeddem wedi bod yn cynyddu momentwm ac yna fe ddaeth popeth i stop, felly roedd yn teimlo braidd fel bod y tir wedi ei dynnu o dan ein traed. Roedd yn teimlo fel bod fy rôl wedi troi i fod yn weithiwr cymorth i deuluoedd ar gyfer ein teuluoedd cynhwysiant. Fe wnaethom ddatblygu teithiau cerdded â thema wythnosol ar gyfer teuluoedd i'w mwynhau yn ystod eu hymarfer corff dyddiol a bwletin newyddion wythnosol oedd yn cynnwys syniadau ac awgrymiadau chwareus y gallent eu gwneud adref. Wedi i rai o'r cyfyngiadau lacio, fe fues i'n danfon bagiau o adnoddau chwareus i'r teuluoedd, fel bod ganddyn nhw amrywiaeth o ddeunyddiau i'w defnyddio ar gyfer chwarae, celf a chrefft. Fe lwyddon ni i gynnal rhywfaint o sesiynau mynediad caeëdig ar gyfer plant anabl er mwyn cynnig seibiant i deuluoedd yn ystod y cyfnod hwn hefyd. Wrth i'r cyfyngiadau lacio, mae wedi bod yn braf iawn ailgychwyn darpariaeth chwarae cymunedol a chefnogi plant i chwarae a chymdeithasu unwaith eto ar ôl blwyddyn mor rhyfedd.

www.chwarae.cymru
Elusen cofrestredig, rhif 1068926
© Chwarae Cymru